# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **08 Mai 2019.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes iddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Andrea Lewis | **Adran Etholiadol:** | Treforys |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Aelod y Cabinet - Tai ac Ynni |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cyflwynom nifer o gynlluniau ar draws Treforys, gan wrando ar eich ceisiadau, eich pryderon a'ch problemau a oedd yn cynnwys y canlynol:-

- Ariannom Fainc Goffa'r Rhyfel Byd Cyntaf yn y Senotaff ym Mharc Treforys, a phabi polion lampau ar draws y ward yn llawn.
- Rydym wedi ariannu glanhawr penodedig ar gyfer ward Treforys er mwyn canolbwyntio ar glirio ardaloedd ar draws y ward, ac mae hynny wedi bod yn llwyddiannus iawn ers ei gyflwyno dros y misoedd diwethaf. Mae hyn yn ychwanegol i'r rhaglenni glanhau sydd eisoes yn weithredol.
- Gan ymateb i bryderon diogelwch, fe ariannon ni reilen ddiogelwch a osodwyd wrth y groesfan i gerddwyr o flaen siopau Cwmrhydyceirw ar Heol Chemical
- Ariannom arwydd ffordd newydd sy'n nodi dim ffordd drwodd a Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar gyfer Fagwr Place a Stryd Tirpenry.
- Cyfrannom tuag at siglen fasged ym Mharc Heol Tir Du, rhoesom rodd ariannol i Glwb Gwyddbwyll Treforys a Chôr Tabernacl, ac ariannom nifer o ddiffibriliwyr yn Ysgol Gynradd Treforys, Ysgol Gynradd Pentre'r Graig, Ysgol Gynradd Glyncollen ac Ysgol Gynradd Ynystawe.
- Deliais hefyd â nifer o broblemau ward yn ymwneud â priffyrdd a thai gyda'r mwyafrif yn dod i ganlyniad cadarnhaol.
- Rydym wedi cynnal cymorthfeydd wythnosol yn Llyfrgell Treforys.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Yn ogystal â'm rolau â'm dyletswyddau fel Cynghorydd ward, mae fy nyletswyddau portffolio'r Cabinet yn cynnwys:-

Cyflwyno Rhagor o Gartrefi; Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer (y Fargen Ddinesig); Y Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol (GAEC); Rheoli Tai'r Cyngor; Atgyweiriadau Tai'r Cyngor; Polisi Tai, Tai Fforddiadwy ac Opsiynau Tai; Cynlluniau Addasu ac Adnewyddu Tai; Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC); Ynni; Cynlluniau Gwresogi Ardal; Tai Lloches; Cludiant Gwyrdd a Mabwysiadu Cerbydau Gwyrdd (gan gynnwys gwaith isadeiledd); Gorfodi Amodau Tenantiaethau; Digartrefedd a Chefnogi Pobl; Tai Cydweithredol; Lleihau Tlodi; Elfennau Arweiniol Abertawe Gynaliadwy.

Rwyf wedi gweithio'n helaeth ar feysydd cyflwyno yn fy mhortffolio yn ystod 2018-2019. Ers i ni ddechrau adeiladu tai cyngor eto, cwblhawyd y safle arloesi cyntaf yn Colliers Way sydd bellach wedi'i lenwi. Rydym wedi bod yn llwyddiannus gyda'n cais i Lywodraeth Cymru am gyllid Rhaglen Tai Arloesol (IHP2) ar gyfer ein hail a'n trydydd safle. Mae hyn wedi ein galluogi i ddatblygu ein hail safle ym Mharc yr Helyg, Gellifedw a Cham 2 Colliers Way i'w hadeiladu i'n “Safon Abertawe” sy'n cynnwys ynni solar, mannau storio batris, pympiau gwres ffynhonnell y ddaear a brics gwennol ddu, gan barhau i ddarparu cartrefi o safon sy'n ddiogel, yn gynnes ac yn fforddiadwy er budd i'n tenantiaid a helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Gwnaed cynnydd sylweddol gyda'r Rhaglen Ddatblygu'r Cyfrif Refeniw Tai ehangach, i ddatblygu safleoedd y mae'r cyngor yn berchen arnynt yn y dyfodol i ddarparu mwy o dai fforddiadwy yn Abertawe er mwyn bodloni'r galw cynyddol.

Rydym yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol gan ddefnyddio'r incwm o rentu tai cyngor o'n Cyfrif Refeniw Tai i ddod â'n tai cyngor i Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) gyda chynlluniau ar gyfer ein cartrefi cyngor, megis ceginau newydd, ystafelloedd ymolchi, boeleri a gwaith gorchuddio er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi er lles tenantiaid y cyngor.

Gyda chymorth gan Dîm Digwyddiadau'r Cyngor, cynhaliwyd ein Sioe Deithiol Aer Glân sy'n hyrwyddo cerbydau dim allyriadau carbon. Yn anffodus roedd y tywydd yn ein herbyn, ond mae digwyddiad eleni ym mis Medi yn argoeli i fod yn fwy ac yn well na'r sioe flaenorol gyda chynhadledd Greenfleet yn Neuadd Brangwyn. Cefnogwyd y digwyddiad gan ein partneriaid sectorau cyhoeddus a phreifat yn ogystal â gwneuthurwyr ceir masnachol.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Digwyddiad Cynnau Goleuadau'r Nadolig 2018 yn Nhreforys - Gweithiodd cynghorwyr Treforys gyda'i gilydd i drefnu a chyflwyno digwyddiad cynnau'r goleuadau Nadolig yn Nhreforys yn 2018 ar Stryd Woodfield a oedd yn llwyddiant ysgubol. Hoffwn ddiolch i bawb a gefnogodd y digwyddiad, gan gynnwys y gymuned leol gyda thua 2,000 o bobl yn bresennol, roedd yr awyrgylch yn wych a'r gorau eto! Rydym yn edrych ymlaen at wneud y cyfan eto'r flwyddyn nesaf!

Arddangosfeydd Blodau - Trefnodd Cynghorwyr Treforys arddangosfeydd blodau a blodau gwyllt helaeth ledled ward Treforys.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Cynhaliais gymorthfeydd cynghorydd wythnosol, ar sail rota, gyda'm cydweithwyr ward, yn Llyfrgell Treforys, bob bore Sadwrn.

Roeddwn (ac rwy'n parhau i fod) yn aelod o fwrdd y Neuadd Goffa. Mynychais gyfarfodydd PACT yn rheolaidd a nifer o gyfarfodydd cyhoeddus ac mi es i i gyfarfodydd fel Cadeirydd llywodraethwyr Ysgol Gynradd Treforys ac fel llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Treforys yn rheolaidd. Mi es i i gyfarfodydd y Weithrediaeth a'r Grŵp Llafur yn rheolaidd. Roeddwn ac rwy'n parhau i fod yn Ysgrifennydd Grŵp Llafur Dinas a Sir Abertawe.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch (Aelod y Cabinet): £32,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 20/05/2019 |